

Uned 11.i

Ectoparasitiaid

Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Mae Ectoparasitiaid yn bwydo ar du allan eu hanifail lletyol. Maent yn effeithio ar wartheg a defaid ac yn achosi cosi poenus a llym i'r anifail a niwed i'r croen.

A. Ectoparasitiaid Defaid

Dyma'r prif ectoparasitiaid:

1. Larfâu pryfed chwythu
2. Clafr defaid
3. Llau: Brathog a Sugno
4. Trogod

1. Larfâu Pryfed Chwythu

Mae pryfed yn taro ar wllân seimlyd llaith yn aml mewn amodau mwll cynnes yn yr haf a'r hydref. Mae'r Pryfed Gwyrdd yn dodwy eu hwyau yn y gwllân a darnau o dail ac mae'r cynrhon yn deor o fewn 2-3 diwrnod, ac yn bwydo oddi ar y croen. Gall eu tocsinau nhw, a'r niwed corfforol, ladd y defaid o fewn rhai dyddiau.

Symptomau

Mewn defaid:

- ysgwyd eu cynffon
- troi'n ôl tuag at eu cynffonau
- cnoi'r gwllân, stampio'r llawr â'u traed
- aros ar wahân i'r lleill
- chwilio am gysgod yn y cloddiau
- bod â chlytiau llaith yn y gwllân.

2. Y Clafr

Y gwiddonyn parasitig sy'n gyfrifol am y clafr defaid yw *Soroptes Ofis*, sy'n bwydo ar wyneb y croen. Mae holl ddatblygiad y gwiddonyn yn digwydd ar wyneb y croen. Mae'r fenyw yn dodwy hyd at 80 o wyau, sy'n deori mewn 1-2 ddiwrnod. Mae cylchred bywyd yn gyflawn mewn 14 i 17 o ddyddiau. Mae'r gwiddonyn yn tyllu'r epidermis ac yn bwydo oddi ar y lymff. Mae cramennau melynaidd yn datblygu ar y croen ac mae'r cnu'n mynd yn llaith a matiog. Mae'n achos cosi poenus ofnadwy. Ar ôl oddeutu 8-12 wythnos yn dilyn yr heintiad, mae'r ddafad yn colli'r mwyafrif o'i chnu a gall farw oherwydd diffyg bwyd. Nid yw'n bwyta oherwydd mae'n gwario cymaint o amser yn crafu.

3. Llau

Y ddau brif fath sy'n effeithio ar ddefaid yw:

- a. Llau brathog - *Damalinea Ofis*
- b. Llau sugno - *Linognatws Ofilws* a *Linognatws Pedalis*

a. Llau Brathog

- bwydo ar gelloedd croen diblsgol
- byw ar rannau o'r gwddf a'r cefn
- rhwbio, crafu a chnoi yw'r prif symptomau
- maint ac ansawdd gwlân is
- problem i ddefaid dan do, yn enwedig yn y gaeaf
- cael eu lladd drwy ddipio neu hylifau tywallt

b. Llau Sugno

- byw ar yr wyneb a'r traed a'r cymalau isaf
- eu gwneud yn llesg
- anemia
- lladd gan ifermectinau pigiadol

4. Trogod

Mae'r trogod yn gysylltiedig â thiroedd pori garw, heb eu gwella. Yn ystod cylchred bywyd y drogen, rhaid i bob cam fwydo ar anifail am amser byr i gael pryd gwaed. Mae oedolion trogod benywaidd yn glynu wrth y croen. Mae trogod yn niferus iawn yn ystod y Gwanwyn, ond gellir eu gweld ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Mae trogod yn achosi:

- Pyemia trogod
- Y Breid – clefyd firaol y system nerfol

Pyemia trogod

Mae'r bwydo o'r gwaed gan y trogod yn achosi crawniadau yn y cymalau, asgwrn cefn a'r organau mewnol mewn ŵyn. Mae ŵyn sydd wedi eu heffeithio'n ddifrifol yn methu dal i fyny gyda'i mamau ac yn marw o esgeulustod.

B. Ectoparasitiaid Gwartheg

- a. Llau
- b. Clafr y Cŵn

a. Llau

Mae llau'n achosi cosi poenus ar y croen. Mae hyn yn gwneud i wartheg sydd wedi eu heffeithio gnoi, crafu a rhwbio. Gall y gwartheg hyn ddifrodi ffensys, coed ac adeiladau wrth rwbio.

Mae llau'n effeithio ar gynnyrch llaeth a chyfradd tyfiant gwartheg, gan eu bod yn treulio amser hir yn crafu yn lle bwyta.

Mathau o lau

Mae pedwar math cyffredin o lau yn y DU, a gellir eu dosbarthu i ddau gategori gwahanol:

i. Llau Sugno

Mae tair rhywogaeth gyffredin o lau sugno yn y DU. Mae gan y rhain bennau culion bychain sydd wedi eu cynllunio i dyllu'r croen a sugno gwaed. Mae nifer fawr yn gallu achosi anemia. Fel arfer, gwelir y rhain o amgylch pennau a gyddfau gwartheg

ii. Llau Brathog

Mae gan Lau Brathog bennau cylchog mwy o faint. Maen nhw'n bwydo ar weddillion croen, gwaed a chrachod. Mae llau brathog yn achosi cosi poenus mwy difrifol na'r llau sugno.

b. Clafr y Cŵn

Enw cyfunol yw Clafr y Cŵn am ddermatitis alergol achosir gan **widdon**.

Dau fath:

- Twrio e.e. *Sarcoptes Scabiei* - i'w canfod ar y gwddf
- Ddim yn twrio e.e. *Coriotes* a *Soroptes* - i'w canfod ar waelod y gynffon